

Gyda'n gilydd gallwn lunio'n Hamgylchedd



Mae bywyd wedi newid i bob un ohonom ers y tro diwethaf imi ysgrifennu cyflwyniad i'n llythyr newyddion. Mae'r cyfyngiadau yr ydym yn ymdrech-u'n galed i gydymffurfio â nhw i'n cadw ni i gyd yn ddiogel rhag y pandemig Coronafeirws wedi effeithio arnom ni i gyd gartref ac yn y gwaith.

Mae llawer o gydweithwyr wedi parhau i ddarparu ein gwasanaethau critigol, gan sicrhau bod casgliadau gwastraff yn digwydd bob dydd, ymateb i faterion brys ar y briffordd, parhau i gyflawni gwaith cynnal a chadw brys yng nghartrefi ein tenantiaid, glanhau cartrefi gofal, canolfannau gofal plant a'n swyddfeydd, a chyflawni dyletswyddau statudol i sicrhau bod adeiladau a'n hamgylchedd yn ddiogel. Rydych wedi gwneud hyn yn hyblyg ac wedi addasu i'r rheoliadau newydd a'r cyfyngiadau ar sut rydych yn gweithio er mwyn eich cadw chi a'n cwsmeriaid a'n preswylwyr yn ddiogel. **Diolch yn fawr.**

Mae llawer ohonoch wedi ymuno â'n cronfa ddata gwirfoddoli i staff ac wedi cael eich adleoli i feysydd gwaith er mwyn darparu cymorth hanfodol i'n cymunedau, gan wneud y defnydd gorau o'ch sgiliau. Mae cydweithwyr wedi bod yn rhoi cymorth i'r canolfannau darparu bywyd hanfodol, gan gynorthwyo â'r dasg weinyddol enfawr o sicrhau bod gennym lanhawyr ar y safleoedd lle y mae eu hangen a phryd y mae eu hangen, gyrru i roi cymorth i wasanaethau eraill yn enwedig ein criwiau sbwriel, cydgysylltu gwasanaethau ar gyfer pobl ddigartref, a darparu cymorth ychwanegol lle mae ei angen yn gyffredinol. **Diolch yn fawr.**

Mae rhai ohonoch wedi defnyddio eich sgiliau a'ch gwybodaeth i gyflawni prosiectau penodol sydd eu hangen ar frys mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws. Yn sgil ymdrech enfawr gan gydweithwyr llwyddwyd i gwblhau'r gwaith o nodi adeiladau a dylunio a gosod ysbytai maes mewn dim ond 3 wythnos, oherwydd ymrwymiad pawb ac oriau gwaith hir. Mae goruchwylwyr ac arweinwyr tîm wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr lechyd a Diogelwch i sicrhau bod gennym asesiadau risg a systemau gweithio diogel ar waith ar gyfer ein holl weithgareddau. Mae timau wedi'u sefydlu i sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn cael ei gyflenwi ac i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddosbarthu i gydweithwyr sydd ei angen fwyaf mewn gofal cymdeithasol ac addysg yn ogystal â'n gwasanaethau ein hunain. **Diolch yn fawr.**

A bydd llawer ohonoch chi, fel fi, yn gweithio gartref. Rydych wedi bod yn ceisio cydbwysu'r diwrnod gwaith â dysgu'r plant gartref a gofal plant (rwy'n eich edmygu'n fawr!), dysgu sut i gadw mewn cysylltiad â chydweithwyr drwy ddulliau digidol, delio â diffyg cyswllt cymdeithasol, a dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu ein gwasanaethau o bell. Rwy'n amau na fydd ein bywydau gwaith byth yr un peth yn union eto, ond wrth i ni ddechrau cynllunio sut y byddwn yn dychwelyd i'r gwaith, mae'n bwysig ein bod yn parhau i aros gartref. **Diolch yn fawr.**

I'n staff sy'n aros gartref i warchod eu hunain er mwyn diogelu eu hunain a'u teuluoedd - cadwch yn iach. Ac i'r rhai sy'n anhwylyd, dymunwn wellhad buan i chi.

Bob dydd, rwy'n clywed am weithredoedd o garedigrwydd a chefnogaeth ymhlith timau a chydweithwyr, ac mae'r rhain yn codi fy nghalon bob tro – cadwch i fod yn garedig. Diolch yn fawr iawn am bopeth yr ydych yn ei wneud, ac yn bwysicaf oll, cadwch yn ddiogel yn y gwaith a gartref gyd-a'ch teuluoedd. **Diolch yn fawr.**

Ruth Mullen
Cyfarwyddwr



Prosiect Camau Nesaf - Ilwyddiant a chyfleoedd yn y dyfodol

Y llynedd, roedd hi'n 10 mlynedd ers sefydlu prosiect Camau Nesaf, a chafodd 10 ymgeisydd llwyddiannus gyfle am brentisiaeth gyda'n tîm Cynnal a Chadw Eiddo, CYFLE, Lloyd and Gravell a TRJ. O'r 10 ymgeisydd, llwyddodd Corey Urch, Joshua Williams a Jeremy Kenny i gael swydd yn y tîm Cynnal a Chadw Eiddo.



Mae CYFLE, Lloyd & Gravell, TRJ, Coleg Sir Gâr a CCTAL yn cydweithio â'r tîm Cynnal a Chadw Eiddo. Bellach yn ei 11eg blwyddyn, mae prosiect Camau Nesaf ar gyfer dynion a menywod dros 16 oed yn ein sir, sy'n chwilio am brentisiaeth sydd â diddordeb mewn ennill cymwysterau mewn meysydd gwaith sylfaen, gwaith coed, bricio, plastro, paentio ac addurno.

Mae'r rhaglen eisoes wedi newid bywydau nifer fawr o bobl leol - gan gynnwys pobl sydd wedi mynd ymlaen i sefydlu eu busnesau eu hunain ac ennill cystadlaethau sgiliau cenedlaethol.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau prentisiaeth/rhaglen hyfforddiant â chyflog am ddwy flynedd o leiaf gyda Lloyd & Gravell Ltd, TRJ Ltd neu Gyngor Sir Caerfyrddin. Cyn bo hir, byddwn yn recriwtio ar gyfer 25 o bobl i ddod yn weithwyr proffesiynol yn y dyfodol.

Aelodau'r Bwrdd Gweithredol - Diolch

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb yn yr Adran sy'n rhan o'r gwaith o sefydlu'r Ysbyty Maes am yr ymdrech ragorol a wnaed i sicrhau ei fod yn barod i'w roi ar waith dros gyfnod byr iawn o amser.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r tîm sbwriel am y gwasanaeth rhagorol y maent yn ei ddarparu i breswylwyr. Mae wedi bod yn eithriadol o heriol gan fod safleoedd y canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref wedi'u cau ac o ystyried nifer y bagiau sy'n cael eu rhoi allan, ond rydych wedi ymdrin â hyn yn eithriadol o dda. Diolch yn fawr iawn am barhau i ddarparu'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod heriol iawn hwn.

Hoffwn hefyd ddiolch i'n staff sy'n mynd yr ail filltir yn ystod y cyfnod hwn.

Y Cyngorydd Hazel Evans

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch o galon i bob aelod o staff am y gwaith caled sy'n cael ei wneud i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr Sir Gaerfyrddin, ond yn bwysicach, i'w cadw'n ddiogel ac yn rhydd o niwed cyn belled ag y bo modd.

Gall darparu gwasanaethau rheng flaen fod yn anodd ar y gorau, ond wrth i ni wynebu'r sefyllfa hon nad ydym wedi gweld ei thebyg o'r blaen, hoffwn eich sicrhau bod pawb o'ch cwrdd yn eich cefnogi'n llwyr.

Dim ond neges gyflym yw hon i ddiolch o galon i chi i gyd.

Y Cyngorydd Phillip Hughes

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd

Datganiad Ardal De-orllewin Cymru - Cynllun Adfer Natur

Mae Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin, y mae'r Cyngor yn ei hwyluso, wedi bodoli am dros 20 mlynedd, gan weithio gyda'i gilydd i geisio cadw, gwella a chodi ymwybyddiaeth o'r ystod amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd a geir yn y sir. Mae'r Adain Gadwraeth wedi arwain ar y gwaith o lunio **Cynllun Adfer Natur** y Bartneriaeth ar gyfer y sir.

Mae wedi'i lunio ar sail amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru cenedlaethol, sy'n mynd i'r afael â'r materion sy'n achosi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac yn cefnogi'r broses adfer. Un o'r camau nesaf fydd canfod sut y mae'r Cyngor eisoes yn cyfrannu at amcanion y cynllun drwy'r ffordd yr ydym yn rheoli/cynnal a chadw ein tir a'n hadeiladau a'r prosiectau yr ydym yn ymgymryd â nhw e.e. **Prosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin**, **Prosiect Britheg y Gors Caeau'r Mynydd Mawr**.

Mae'r rôl y mae'r Cyngor yn ei chyflawni yn cyfrannu at ein dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2006 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Ar yr un pryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llunio cyfres o 'Ddatganiadau Ardal', sy'n cwmpasu saith rhan o Gymru ar wahân, sy'n amrywiol iawn. Mae Sir Gaerfyrddin yn rhanbarth Datganiad Ardal y De-orllewin.

Mae'r Datganiad Ardal hwn yn nodi'r risgiau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau allweddol y mae angen i bob un ohonom fynd i'r afael â nhw i feithrin gwytnwch ein hecosystemau a chefnogi rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol. Gallai'r gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud gyfrannu at gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r prif themâu a nodwyd. Lleihau diffyg cydraddoldeb o ran iechyd Sicrhau dulliau cynaliadwy o reoli tir Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a'i gwella Thema drawsbynciol: addasu i newid yn yr hinsawdd a'i leihau.

Bydd CNC yn dechrau trafod gyda ni ynghylch y ffordd orau o weithredu - o ran cyflawni a mireinio'r manylion lle mae angen gwaith pellach. Mae hyn yn debygol o gynnwys gwaith â mwy o ffocws ar themâu penodol neu o amgylch ardaloedd daearyddol penodol.

<https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-west-wales-area-statement/?lang=cy>



Gwobrau Effaith Gymdeithasol 2020

Enillydd Gwobrau Effaith Gymdeithasol 2020 gan Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig yng nghategori Addysg yw Ysgol Pen Rhos. Mae'r gwobrau'n cydnabod cyfraniad cadarnhaol a thrawsnewidiol yr amgylchedd adeiledig i gymdeithas ac mae'r ystod o brosiectau a mentrau isod yn dangos y gorau o bob rhan o Gymru. Mae'r categori Addysg yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, addysg drydyddol a chyfleusterau addysg i oedolion o ysgolion i golegau a phrifysgolion. Llonyfarchiadau i'n Syrffewyr!

Mae Ysgol Pen Rhos, sy'n ysgol gynradd newydd â threfniadau derbyn dau ddosbarth - yn cymryd lle Ysgol Gynradd Lakefield ac Ysgol Fabanod a Meithrin Copperworks.




Mae'n darparu cyfleuster dysgu newydd a modern ar gyfer yr 21ain ganrif sydd wedi adfywio safle tir llwyd adfeiliedig a oedd yn ddiwydiannol iawn ac wedi'i halogi'n helaeth, lle cafwyd llawer o fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Ysgol Pen Rhos yn gatalydd ar gyfer adfywio ac mae wedi bod yn allweddol ar gyfer ysgogi budd economaidd a newid yn yr ardal leol. Hyd yn oed yn well, mae'r prosiect wedi'i ddewis fel Prosiect Cyffredinol y Flwyddyn o enillwyr yr 8 Categori ar gyfer 2020.

Diolch yn fawr i'n Glanhawyr am ein cadw ni'n ddiogel!

Diolch yn fawr i'r glanhawyr sydd wedi cadw ein canolfannau ar gyfer ysgolion, ein canolfannau dosbarthu bwyd, ein depos, ein swyddfeydd a'n tai gwarchod ar agor yn ystod y cyfnod hwn. Maent wedi mynd yr ail filltir i ymateb i'r angen am lanhau ychwanegol ar draws yr adeiladau hyn i sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau rheng flaen.


Mae'r Cynghorydd Hazel Evans, sef yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd, wedi anfon neges o ddiolch ar gyfer ein tîm glanhau: "Ysgrifennaf at bob un ohonoch i ddiolch yn fawr iawn i chi am eich ymdrechion ers dechrau'r pandemig hwn i sicrhau bod ein holl swyddfeydd, ysgolion, gorsafoddd tân a thai gwarchod wedi cael eu glanhau i safon uchel iawn, gan sicrhau bod y afiechyd hynod heintus hwn yn gallu cael ei gyfyngu cymaint â phosibl. Mae'r cyhoedd a minnau yn gwerthfawrogi'r gwaith yr ydych yn ei wneud yn enwedig yn ein hysgolion a'n cartrefi gofal, yn ogystal â'r gwasanaethau eraill rydym yn eu darparu i gwsmeriaid allanol. Mae'n aml yn wasanaeth nad yw'n cael sylw nes nad yw'n cael ei wneud. Rwy'n gwerthfawrogi'r anawsterau yr ydych wedi'u hwynebu ac rwy'n gwerthfawrogi'r aberth yr ydych yn ei wneud o ran eich bywydau personol. Ar fy rhan fy hun ac ar ran fy nghyd-Aelodau ar y Bwrdd Gweithredol yn ogystal â'r cyhoedd, diolch yn fawr iawn i chi."



Gweithwyr ffordd yn cefnogi dosbarthiadau a chriwiau gwastraff

Mae gweithwyr ffordd o'n depos yng Nghillefwr, Glanaman a Throstre wedi bod yn helpu i ddosbarthu bwyd i'n hysgolion o Castell Howell yn Cross Hands. Maent wedi cynorthwyo i ddosbarthu pecynnau bwyd yn uniongyrchol i gartrefi ac ysgolion.

Yn ogystal, mae gennym nifer o weithwyr ffordd yn ein depo yn Nhrostre sy'n cael eu hadleoli bob dydd i'r uned wastraff/sbwriel fel gyrwyr mewn cerbyd cymorth ar rowndiau sbwriel. Mae'r cerbyd cymorth yn cludo un llwythwr o gwmpas y rownd gan ddilyn y lori sbwriel.



Diolch i Arwyr ein Rowndiau Biniau!

Wrth i'n gweithwyr gwastraff fynd yr ail filltir yn ystod argyfwng Covid-19 i barhau i gasglu gwastraff ac ailgylchu, mae preswylwyr wedi bod yn dangos eu gwerthfawrogiad am eu gwaith caled.



Gan fod casgliadau gwastraff ac ailgylchu yn hanfodol i'r cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd yn ystod argyfwng Covid-19, mae gweithwyr gwastraff - y mae'r llywodraeth wedi pennu eu bod yn weithwyr allweddol - wedi parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod yr epidemig. Yn yr un modd â gweithwyr rheng flaen y GIG, mae preswylwyr wedi diolch i weithwyr gwastraff. Mae llawer ohonynt yn hunanynysu neu'n cadw pellter cymdeithasol i gyfyngu ar ledaeniad y feirws, gan roi anogaeth wych yn ystod y cyfnod anodd hwn. #SirGaredig

Gyda'n gilydd gallwn lunio'n hamgylchedd

PEIDIWCH Â CHOLLI ALLAN

Cofrestrwch ar gyfer eich cylchlythyr e-bost heddiw

Mae'n hawdd cael y newyddion diweddaraf, gostyngiadau a digwyddiadau staff trwy gofrestru'ch cyfeiriad e-bost personol.

Byddwch y cyntaf i glywed am:



Newyddion a digwyddiadau staff



Disgownt staff

IE!
COFRESTRU

Dweud eich dweud...



Derbyn y cyfathrebu diweddaraf



Trwy arwyddo heddiw fe wnewch:

Helpu ni i ddod yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd



Wnewch chi **E-BOSTIO** dy Enw, Rhif Cyflog ac eich Cyfeiriad E-bost at: KellyThomas@sirgar.gov.uk

NEU cwblhewch a dychwelwch y ffurflen isod at:

Rhadbost RSHS-UALU-GJJS,
Cefnogaeth Busnes a Pherfformiad
Cyngor Sir Caerfyrddin, Bloc 1, Parc
Myrddin, Caerfyrddin SA31 1HQ

Enw:

Rhif Cyflog:

Cyfeiriad E-bost:

Os na fyddwch yn ymateb byddwch yn parhau i dderbyn y cylchlythyr trwy'r post.

Sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth:

Byddwn yn defnyddio eich e-bost personol a rhodwch I ni, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am newyddion a diweddariadau staff. Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio am unrhyw bwrpas arall. Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yw eich caniatâd i ni gadw'ch cyfeiriad e-bost a chyfluo newyddion a diweddariadau sy'n gysylltiedig â gwaith. Ni fyddwn yn rhannu'r wybodaeth hwn gydag unrhyw wasanaeth Cyngor arall neu fudiad allanol. Cedwir eich data personol am am hyd eich cyflogaeth.

Manylion cyswllt: Kelly Thomas,
Uwch Swyddog Ffocws Cwsmeriaid,
01267 228130

Eich hawliau Diogelu Data

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch eich hawliau ac i gael manylion cyswllt ein Swyddog Diogelu Data, ewch i'n gwefan: www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data/

Cymeradwyo gwelliannau i Neuadd y Dref Llanelli

Diolch i ymdrechion y timau Dylunio Eiddo a Chynllunio, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi Caniatâd Adeilad Rhestredig. Bydd hyn yn caniatáu i'r ramp newydd arfaethedig, gwaith atgyweirio i do portico yn ogystal ag atgyweiriadau cysylltiadau i'r gwaith maen gael eu cyflawni. Bydd y lifft platfform allanol presennol, nad oes modd ei drwsio'n economaidd, yn cael ei waredu. Bydd hyn yn ateb parhaol a deniadol i'r adeilad eiconig hwn.

Cadw ein ffyrdd yn ddiogel

Mae Swyddogion ar Ddyletswydd, Goruchwylwyr, Arolygwyr Priffyrdd a chriwiau priffyrdd brys wedi parhau i arolygu ein priffyrdd, gwneud atgyweiriadau brys a gwaith sy'n gysylltiedig â diogelwch, ac ymateb i ddigwyddiadau megis gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd. Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth hanfodol 24 awr y dydd a saith niwrnod yr wythnos i sicrhau bod ein ffyrdd yn ddiogel i'r rheiny y mae angen iddynt deithio.

Timau Dylunio Eiddo a Chynnal a Chadw yn cynorthwyo i ddarparu ysbytai maes

Mewn tair wythnos yn unig, bu contractwyr a ddewiswyd o'r Fframwaith Adeiladu newydd ar gyfer De-orllewin Cymru, yn gweithio gyda thimau dylunio eiddo a chynnal a chadw Cyngor Sir Caerfyrddin i newid y cyfleusterau ar fyr rybudd ac yn arbennig o gyflym.

Maent wedi newid dwy ganolfan hamdden, arena fowlio a digwyddiadau a stadiwm rygbi yn ysbytai dros dro i helpu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddelio â'i ymateb i'r coronafeirws .



Roger yn helpu i ddosbarthu parseli bwyd

Mae Roger Thomas, un o'n Swyddogion Gorfodi Sifil, wedi gwirfoddoli i helpu i ddosbarthu parseli bwyd yn Llanelli. Mae Roger wedi bod yn helpu i ddosbarthu'r parseli bwyd ers 27 Mawrth drwy ddefnyddio un o gerbydau'r Cyngor.

Tîm fflyd yn cadw ein cerbydau hanfodol ar y ffordd

Mae ein Tîm Rheoli'r Fflyd wedi bod yn gweithio'n ddiflino yn ystod epidemig y Coronafeirws i sicrhau bod cerbydau hanfodol y Cyngor yn cael eu cadw ar y ffordd. Mae'r cerbydau hyn yn cynnwys cerbydau casglu sbwriel hanfodol, cerbydau priffyrdd a cherbydau gofal cymdeithasol. Bu aelodau o'r tîm ymroddedig hwn yn gweithio dros benwythnos Gŵyl y Banc i gefnogi gwasanaethau rheng flaen.

STRAEON STAFF

Adleoli i gynorthwyo'r tîm tai yn ystod Covid-19



Yn ystod y cyfnod hwn, rwyf wedi bod yn gweithio i'r gwasanaethau tai gan roi bwyd i'r bobl agored i niwed yn Llanelli ac yn cyflawni rôl gyswllt rhwng y gwasanaethau tai a'r sector gwirfoddol i ddarparu gwybodaeth am ddigartrefedd. Mae nifer o bobl ddigartref/syrffwyr sofffa sy'n byw mewn llety anaddas wedi'u nodi a'u helpu gan y tîm Dewisiadau Tai drwy'r cyswllt hwn.

Gan ddefnyddio fy mhrofiad o reoli Sosban Soup Station (y tu allan i'r gwaith), gofynnwyd i mi dynnu sylw at y materion sy'n amlwg yn Llanelli ac ailadrodd y gwaith hwn i sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas yn cael bwyd.

Mae hyn wedi arwain at wasanaeth o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y cyfyngiadau symud, sydd wedi'u cynnal yn uniongyrchol gan Gyngor Sir Caerfyrddin gan gydweithio ag Eglwys Gymunedol Tŷ Gwyn i gefnogi Life Café ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Efallai mai dyma'r unig ddarpariaeth fwyd uniongyrchol o'r math hwn yng Nghymru? Yn ystod yr wythnos gyntaf darparwyd dros 150 o brydau bwyd. Mae gan y rheiny mwyaf agored i niwed gyfuniad o broblemau, megis tlodi, tai, camddefnydd o sylweddau ac iechyd meddwl felly mae darpariaeth fwyd uniongyrchol yn galluogi'r Cyngor i sicrhau eu bod yn cael gofal mewn ffyrdd lle na fyddai darpariaeth arall yn addas at y diben. Mae tîm o staff Cyngor Sir Caerfyrddin o bob rhan o'r awdurdod ynghyd â gwirfoddolwyr allanol wedi cydweithio'n ddi-dor i goginio sŵp, paratoi bagiau byrbrydau, dosbarthu bwyd a rheoli'r dorf i sicrhau bod pawb yn cadw pellter corfforol. Mae wedi bod yn fraint cael defnyddio fy sgiliau rheoli a threfnu o'r tu allan i'r gwaith i ddod â'r prosiect at ei gilydd mewn ychydig wythnosau a gweld gwerthfawrogiad defnyddwyr y gwasanaeth wrth iddynt gael sŵp twym, te/coffi a bag byrbrydau bob nos.

Gary Glenister Swyddog Rheoli Datblygu

Adleoli fel Hyfforddwr Gwasanaethau Glanhau yn ystod Covid-19

Ers dydd Iau 26 Mawrth ac fel rhan o'r broses adleoli a gwirfoddoli yn y Cyngor, fy rôl newydd yw cynorthwyo i hyfforddi 500 o staff glanhau ar draws y canolfannau ysgol, swyddfeydd a chyfleusterau tai yn y Sir. Bu Amanda Evans - Swyddog Prosiect Cadwraeth a mi, Shaun Miles - Syrfêwr Rheoli Adeiladu, yn gwirfoddoli o Adran yr Amgylchedd i gynorthwyo i hyfforddi'r staff glanhau.

Ein rôl ar adleoliad yw hyfforddi staff glanhau yn ein hardaloedd dynodedig, ar y trefniadau glanhau mwy manwl sy'n ofynnol ar gyfer yr adeiladau hyn yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ynghylch COVID-19.

Roedd fy rôl yn cynnwys mynd i sesiynau hyfforddiant ynghylch y drefn lanhau newydd ac ymweld â'r lleoliadau amrywiol yn fy ardal ddynodedig i ddarparu hyfforddiant i sicrhau bod y glanhawyr yn ymwybodol o ganllawiau newydd y Llywodraeth mewn perthynas â COVID-19. Ar ôl i'r glanhawyr gael y wybodaeth ddiweddaraf am y drefn newydd, rwyf wedi cysylltu â nhw yn wythnosol i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu rolau. Roedd hyn yn cynnwys darparu'r cynnyrch glanhau Titan a'r cyfarpar diogelu personol iddynt (ffedog tafladwy a menig) i sicrhau diogelwch.

Shaun Miles Syrfêwr Rheoli Adeiladu



STRAEON STAFF

Adleoli mewn canolfan fwyd yn ystod Covid-19

Ar ôl cwblhau'r holiadur 'set sgiliau' adrannol i ddechrau, cefais fy adleoli o'm swydd arferol sef penderfynu ar geisiadau cynllunio, i weithio yn y ganolfan fwyd yn Ysgol Dyffryn Aman yn Rhydaman o'r dechrau ddydd Gwener 27 Mawrth 2020. Dyma un o dair ganolfan fwyd o'r fath ar draws y sir; mae'r lleill yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, Caerfyrddin, ac Ysgol Bryngwyn yn Llanelli. Roedd hyn wedi ehangu dros yr wythnosau ar ôl hynny i gyfanswm o saith canolfan ar draws Sir Gaerfyrddin.



Mae'r gwaith yn cynnwys paratoi bocsys/bagiau bwyd a phan gyrhaeddod ni gyntaf, roedd maint y gwaith yn amlwg ar unwaith.

Ar y dechrau roedd popeth yn teimlo'n rhyfedd a bod yn onest, ac roedd y logisteg o ran gosod popeth allan, archwilio faint o fwyd/nwyddau sydd ar gael, i'r materion cadw pellter cymdeithasol a datblygu dull effeithlon ar gyfer pecynnau.



Roedd cael nifer o ganolfannau yn broblem logisteg oherwydd bod y gadwyn gyflenwi'n cael ei thorri i lawr a sicrhau bod digon o staff i roi'r nwyddau mewn pecynnau ym mhob lleoliad. Yn y diwedd, ar 20 Ebrill, sefydlwyd canolfan ganolog yn Neuadd y Gwendraeth, sy'n rhan o hen ysgol y Gwendraeth, Dre-fach. Cyflwynwyd system dau sifft o dan arweiniad Steve Pound, sef Rheolwr Rheoli Adeiladu fel arfer, a mi, ynghyd ag asesiad risg penodol ar gyfer lleoliad y safle, gan sicrhau mesurau ynghylch cadw pellter cymdeithasol, cyfarpar diogelu personol a dulliau o ran pecynnau, yn ogystal â chysiau hyfforddi pwrpasol ar-lein ar gyfer pob aelod o'r tîm.

Dyma'r ail wythnos yn ein canolfan newydd ac mae'n ymddangos ei bod yn gweithio'n dda iawn. Er y gall y gwaith, ar adegau, ymddangos yn heriol o ran dadlwytho'r dosbarthiadau/paledi, agor yr holl nwyddau, paratoi'r bagiau/bocsys unigol, llwytho'r faniau gyda'r pecynnau trwm sydd wedi'u llenwi ac ailstocio nwyddau yn barod ar gyfer y sifft nesaf, mae'r ddau dîm yn ymdrin â'r dasg yn ddiflino ac yn cyflawni canlyniadau rhagorol. Yn amodol ar argaeledd nwyddau, mae'r timau'n cynhyrchu 200-300+ o becynnau wedi'u llenwi'n rheolaidd yn ystod pob sifft.

Mae Steve a minnau wedi gweld bod ymdeimlad o lesiant wedi'i gyflawni drwy wirfoddoli ynghyd ag ysbryd tîm yn sgil gweithio fel rhan o dîm gyda chydweithwyr o bob rhan o'r is-adran gynllunio. Mae'r gwaith gwirfoddoli hefyd wedi rhoi cyfle i ni ddod i adnabod aelodau o'r adran nad ydych yn siarad â nhw'n rheolaidd fel arfer. Mae pob un ohonom yn teimlo ei bod yn her wahanol i'r hyn yr ydym yn ei wneud yn y gwaith fel arfer, ac mae'n sicr yn rhoi mwy o bersbectif i ni am yr hyn sy'n bwysig. Ar lefel bersonol fel rhywun a gafodd brydau ysgol am ddim, er bod hynny flynyddoedd lawer yn ôl, mae'n arbennig o foddhaol bod yn rhan o fenter sy'n sicrhau bod y plant hynny a fyddai fel arfer yn cael prydau ysgol am ddim yn parhau i gael pecynnau bwyd yn ystod y cyfnod hwn nad ydym wedi gweld ei debyg o'r blaen.

Fel pawb, rydym yn gobeithio y bydd pethau'n gwella cyn bo hir ac ni fydd angen i Steve, mi na'r timau weithio yn y banciau bwyd mwyach. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i helpu cymaint ag y gallwn.

Steven Pound a Graham Noakes
Rheolwr Rheoli Adeiladu ac Uwch-swyddog Rheoli Datblygu



Adleoli mewn Canolfan Ofal yn ystod Covid-19

Yn ystod gwyliau'r Pasg, gofynnwyd i mi gynorthwyo mewn un o'r canolfannau ysgol. Mae ysgolion a ddewiswyd wedi parhau i fod ar agor i blant gweithwyr allweddol fynychu ar gyfer gofal plant hanfodol, er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu gwasanaeth hanfodol. Byddwn yn gweithio yn Ysgol y Ddwylan, Castellnewydd Emlyn am 2 ddiwrnod yr wythnos. Er nad oeddwn wedi oedi cyn derbyn y rôl newydd hon gan fy mod yn awyddus i helpu, roeddwn yn pryderu am yr hyn oedd o'm blaen - roeddwn wedi bod yn gweithio gartref, ac yn sydyn roeddwn yn mynd yn ôl i'r gymuned i ofalu am blant yr oedd eu rhieni ar y 'rheng flaen'.



Mae'r canolfannau ysgol ar agor rhwng 8am a 6pm, ac maent yn gweithredu ar sail 'sesiwn galw heibio' a archebir ymlaen llaw, felly byddai rhai plant yno rhwng 8am a 4.30pm a byddai eraill yn cyrraedd yn y prynhawn ac yn aros yn hwyrach, gan ddibynnu ar batrwm sifft eu rhieni. Gan fod oedran y plant yn amrywio rhwng 3 ½ a 12 oed, roedd yn heriol i gadw pawb yn brysur gyda gweithgareddau amrywiol sy'n addas i'w hoedrannau, wrth gadw'n ddiogel.



Roeddem yn ceisio cadw popeth mor normal â phosibl, felly roedd y diwrnod yn dilyn trefn arferol yr ysgol. Brecwast yn gyntaf, ac wedyn mynd allan i gerdded 'milltir y dydd' ac wedyn byddem yn cael sesiwn baentio. Cafwyd egwylliau ysgol ar yr un amser, gyda gweithgareddau eraill e.e. amser stori, gwyllo Cyw ar y teledu, amser ar lechen - Minecraft fel arfer!

Mae'r rhain i gyd yn weithgareddau arferol, ond roeddem yn sicrhau yn gyson bod pawb yn cadw pellter o 2 fetr (heblaw am frodyr a chwiorydd), ac wrth gwrs roeddem yn glanhau eitemau ac arwynebau'n gyson. Roeddem yn brysur iawn gyda hynny - hyd yn oed pan aeth y plant allan i chwarae! Diolch byth, roedd y tywydd yn hyfryd yn ystod gwyliau'r Pasg, felly roedd hyn wedi helpu llawer!

Roedd y plant yn mwynhau gweithgareddau celf a chrefft, felly i gyfuno'r ffaith eu bod wrth eu boddau'n casglu ffyn, a chan fod y tywydd yn braf, cawsom sesiwn grefft yn yr awyr agored ar fy niwrnod olaf. Fel y gallwch weld o'r lluniau, maent wedi creu rhai darnau hyfryd, a gafodd eu paentio a'u cadw. Rwy'n credu i ni gyd fwynhau'r gweithgaredd hwn!

Mwynheais fy amser yn gweithio yn yr ysgol yn fawr! Mae un peth yn sicr, mae gwneud paned o de mewn lleoliad a rennir yn her go iawn..... Collais gyfrif faint o weithiau roeddwn wedi golchi fy nwylo!

Cadwch yn ddiogel pawb!

Nicola Olsson
Swyddog Cynorthwyol Diogelwch Ffyrdd

CORNEL CYMRAEG

Dysgu Cymraeg Ar-lein

Mae hwn yn gyfnod pryderus ac anodd iawn i bawb, ond un o'r pethau cadarnhaol yw bod gan bobl amser i wneud y pethau y maent wedi bwriadu eu gwneud am flynyddoedd.

Gallwch ddechrau dysgu neu wella eich Cymraeg drwy ddilyn y cyrsiau rhagflas hyn ar-lein.

<https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/cyrsiau-blasu-ar-lein/>

Mae'r cyrsiau'n cyflwyno geiriau ac ymadroddion bob dydd ac maent ar gael i bawb, am ddim. I ddechrau, bydd angen i chi fewngofnodi neu greu cyfrif - sy'n cymryd ychydig funudau'n unig (dewiswch 'Arall' yn y gwympen wrth i chi greu eich cyfrif).



Pob lwc yn dysgu Cymraeg!

DIWRNOD VE 75

Dathlu VE 75

Ar 8 Mai 1945 roedd ymdeimlad enfawr o ryddhad ymhlith y genedl.

Roedd partïon stryd, llawer ohonynt yn ddifyfyr, ledled Cymru, gan gynnwys yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r traddodiad hwn wedi parhau ac roedd cynlluniau wedi'u gwneud i ddathlu 75 mlynedd eleni mewn ffyrdd amrywiol ar draws y sir gyda chyngherddau, gorymdeithiau a phartïon.

Fodd bynnag, oherwydd y sefyllfa o ran y coronafeirws (cyfyngiadau symud), cafodd pobl eu hannog i ddathlu VE 75 yn eu cartrefu ac ar stepen eu drws yn hytrach na chynnal gorymdeithiau a phartïon stryd.

Gobeithio y cawsoch gyfle i adfyfrio a chofio'r aberthau a wnaed gan y cenedlaethau hŷn.

Ritz Llanelli

Agorwyd Neuadd Ddawns y Ritz ym 1934 a chafodd ei defnyddio i gynnal dawnsfeydd i bobl ifanc yn y dref. Cafodd ei chaffael at ddibenion y fyddin rhwng mis Mehefin 1940 a mis Mawrth 1943.

Roedd llawer yn teimlo'n gryf o ran colli'r amwynder gan fod llawer o briodasau'n ddyledus i'r Ritz! Ar ôl 1943 parhaodd lwyddiant y neuadd ac ymddangosodd llawer o fandiau mawr Prydain yno (gan gynnwys The Who).



Arwr Caerfyrddin

Roedd Sir Gaerfyrddin wedi cyfrannu llawer at yr ymdrech. Mae'r rhestr o arwyr yr Ail Ryfel Byd o'r sir yn rhy niferus i'w chynnwys yma ond roedd yn cynnwys Brinley Parry Richards a gafodd ei eni yng Nghaerfyrddin ar 22 Ionawr 1920. Cafodd addysg dda ac enillodd radd ddwbl dosbarth cyntaf mewn Ffrangeg a Chlasuron. Gwrthododd ddwyn arfau yn erbyn ei gyd-ddynion ac yn lle hynny ymunodd ag Uned Ambiwylans y Crynwyr. Ym 1944 gwasanaethodd yr uned hon yn Ffrainc a thra oedd wedi'i gysylltu ag uned Ffrengig ym Mharis, gyrodd Brinley ei ambiwlans i mewn i cul de sac wrth i fwledi gael eu saethu er mwyn achub milwyr Ffrengig a oedd wedi'u dal gan yr Almaenwyr. O ganlyniad i'w arwriaeth, rhoddwyd y Croix-de-Guerre iddo gan Lywodraeth Ffrainc ac ar ôl dychwelyd adref ar ôl y rhyfel dyfarnwyd rhyddid Caerfyrddin iddo.

Ein traethau a'n parciau

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd miloedd o filwyr Prydeinig ac Americanaidd yn paratoi ar gyfer dydd D a goresgyniad Ewrop a feddiannwyd gan yr Almaen ar draethau a bryniau tonnog Sir Gaerfyrddin. Mae olion "dannedd y ddraig" ac amddiffyniadau eraill a ddefnyddiwyd ar gyfer ymarfer glanio i'w gweld o hyd ym Morfa Bychan ger Pentywyn. Defnyddiwyd y traethau lleol yma i ymarfer glanio ar gyfer dydd D. Roedd Plas Dinefwr, ym Mharc Dinefwr, Llandeilo, yn ysbyty Prydeinig ac yn ddiweddarach yn wersyll carcharorion rhyfel. Aethpwyd â charcharorion yr Almaen a'r Eidal hefyd i wersyllfaoedd fel yr un yn Llanddarog. Cynhyrchwyd deunydd ar gyfer gwisgoedd y fyddin yn Nrefach Felindre, lle'r oedd Canolfan Byddin yr Unol Daleithiau hefyd.

RAF Pen-bre

Ym Mhen-bre gerllaw, aeth peilot Luftwaffe ar goll ym mis Mehefin 1942 a glanio yn y maes awyr gan ei gamgymryd am redfa yn Ffrainc. Wrth lanio roedd wedi siglo'i adenydd i ddathlu'r ffaith ei fod newydd saethu Spitfire i lawr dros Ddyfnaint. Wrth iddo symud i le parcio, neidiodd peilot ar ddyletswydd ar adain yr awyren a chymerodd yr Almaenwr yn garcharor â gwn fflagu! Roedd yr awyren a ddaliwyd, sef awyren ymladd Focke-Wulf Fw 190, yn awyren flaengar iawn ac yn well na'r Spitfire diweddaraf felly roedd ei dal yn dipyn o gyflawniad i'r RAF. Daeth RAF Pen-bre yn ganolfan ymladd yn ystod Brwydr Prydain ac roedd yn gartref dros dro i lawer o bobl a hedfanodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd gan gynnwys y Cadlywydd Adain Guy Gibson, a ddaeth yn enwog am ei ran yng nghyrch y Dambusters. Roedd y Ffatri Ordnans Frenhinol ym Mhen-bre hefyd yn hanfodol i ymdrech y rhyfel. Hi oedd cynhyrchydd TNT mwyaf y wlad ar yr adeg honno. Disgynnodd awyrennau'r Almaen fomiau yn ystod 1940, ymosodiad cyntaf y Luftwaffe yng Nghymru yn ôl y sôn.

Addysg yn Sir Gaerfyrddin

Ym mis Mehefin 1940 daeth dros fil o blant ysgol Llundain i Orsaf Llanelli yn cydio yn eu masgiau nwy a'u llyfrau dogni.

Cafodd eu paru â rhieni maeth yn yr ardal ac aethant i wahanol ysgolion neu adeiladau addas er mwyn iddynt allu parhau â'u haddysg.


Dywedodd ffermwr ger Llanarthne sy'n cofio'r facwîs, pan ddaeth yr amser iddynt ddychwelyd adref, nad oeddent yn gallu dod o hyd i un o'r bechgyn oedd yn cuddio ac nad oedd eisiau mynd yn ôl. Mae ganddynt atgofion melyn ac yn dal i ysgrifennu atynt heddiw.



Ymunwch â ni am ioga ar-lein

Er mwyn mynychu'r sesiynau ar-lein a ddarperir gan 'Birdsol', bydd angen i bawb (gan gynnwys y rhai sydd wedi bod i'n dosbarthiadau ym Mharc Myrddin yn y gorffennol) gwblhau'r ffurflen hon <https://bit.ly/2WLIR24>. Yna byddant yn derbyn e-bost sy'n esbonio sut i archebu drwy wefan/ap o'r enw Gymcatch. Bydd y ddolen i ymuno ar gael drwy Gymcatch. Bydd y ddolen hon yn mynd â nhw i Zoom lle bydd y dosbarth yn cael ei gynnal. Er mwyn defnyddio Zoom, gofynnir i chi ei lawrlwytho, sy'n cymryd llai na munud. Nid yw'r tîm TG yn cefnogi mynediad at Zoom ar unrhyw un o'n dyfeisiau corfforaethol. I ymuno â'r dosbarth ioga, gofynnwn i chi ddefnyddio eich dyfeisiau eich hun e.e. ffôn/llechen/gliniadur. Pan fyddant yn cychwyn Zoom, byddant yn cael eu cadw yn yr ystafell aros lle byddaf yn edrych a yw pobl wedi archebu.

Cynhelir y sesiynau yn wythnosol ar ddydd Mawrth a dydd Iau 7.45-8.30am.



Gofalu am eich llesiant yn ystod Covid-19

Mae teimlo ychydig yn ansicr ynghylch COVID-19 a sut y gallai effeithio ar eich bywyd yn normal ac mae gofalu amdanoch eich hun yn ystod y sefyllfa hon sy'n newid yn gyson yn eithriadol o bwysig. Mae cynghorion defnyddiol a fydd yn eich helpu i wneud hynny ar y mewnwyd. <https://einpobl.sirgar.llyw.cymru/ein-pobl/canllawiau-coronafeirws/gofalu-am-eich-llesiant/>

Cadw mewn cysylltiad

Mae cynnal perthnasoedd iach â phobl rydych yn ymddiried ynddyn nhw yn bwysig i'ch llesiant meddyliol. Ystyriwch sut y gallwch chi gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu tra byddwch gartref – drwy alwadau ffôn, negeseuon testun, galwadau fideo neu ar-lein – boed hynny'n bobl rydych chi'n eu gweld yn aml neu gysylltu unwaith eto â hen ffrindiau neu gymdogion.

Gall cadw cysylltiad â rhwydwaith cymorth eich helpu i beidio â chynhyrfu a rheoli eich emosiynau ac mae'n debygol o helpu pobl eraill hefyd.

Cymorth ychwanegol i staff

Mae'r Ganolfan Cyngor a Chymorth Llesiant Gweithwyr wedi'i sefydlu yn ystod y cyfnod ansicr hwn er mwyn eich helpu gyda'r pryderon a allai fod gennych ar hyn o bryd.

<https://einpobl.sirgar.llyw.cymru/ein-pobl/canllawiau-coronafeirws/gofalu-am-eich-llesiant/>